Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Cynllunio a Datblygu** a gynhaliwyd yn **Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun, nos Lun, 3 Rhagfyr 2018** am **6:45p.m.**

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Stephen Beach, Gavin Harris, Ken Hawkins, Ian Lewney, Robert Owen-Ellis a Heather Williams.

42. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr John Wynne Hughes ac Ifan Wyn.

43. DATGAN BUDDIANNAU
Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau. Gan fod y Cynghorydd Ian Lewney wedi datgan budd yng nghais 02/2018/0952 – 48 Bryn Rhydd, Rhuthun gan mai ei gyflogwr oedd yr ymgeisydd, penderfynwyd y dylai'r Cynghorydd Ken Hawkins gynrychioli'r Cyngor Tref ar banel ymweliad safle Cyngor Sir Ddinbych ar 7 Rhagfyr.

44. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2018 yn gywir.

45. MATERION YN CODI
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

46. PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO
Adroddodd y Clerc y derbyniwyd y penderfyniad cynllunio a ganlyn gan Gyngor Sir Ddinbych:
02/2018/0884 – 5 Llys y Castell, Rhuthun – Adeiladu estyniad porth – Caniatawyd
02/2018/1086 – Llawr cyntaf ac ail lawr uwchben Cavendish Ikin a Moccoco, 1-2 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Manylion y mecanwaith ar gyfer darpariaeth gwagle agored trwy swm cymunedol a gyflwynwyd yn unol ag amod 3 caniatâd cynllunio 02/2013/0780/PF – Cymeradwywyd
02/2018/1025 – Tir yng Nghanolfan Fusnes Birch House, Hen Lôn Parcwr, Rhuthun – Adeiladu 4 uned ddiwydiannol ysgafn a gwaith cysylltiedig – Tynnwyd yn ôl
02/2018/0967 – HSBC, 1 Sgwâr Sant Pedr, Rhuthun – Mewnosod dau dreiddiad yn y waliau mewnol i ganiatáu gwaith lleddfu nwy Radon – Caniatawyd
02/2018/0945 – 9 Cae Castan, Rhuthun – Adeiladu estyniad ac addasiadau i'r annedd – Gwrthodwyd

47. CEISIADAU CYNLLUNIO
Ystyriodd y Pwyllgor y ceisiadau a ganlyn a gyflwynwyd am sylwadau gan Gyngor Sir Ddinbych.
PENDERFYNWYD: *nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio a ganlyn.*

02/2018/1072 – Tir yn (rhan o ardd) The Nook, Bryn Goodman, Rhuthun
Dymchwel garej, adeiladu un annedd sengl, addasiadau i'r dreif presennol a gwaith cysylltiedig.
02/2018/1008 – Gorsaf Wasanaethu'r Dyffryn, Ffordd Dinbych, Rhuthun
Adeiladu estyniad i'r siop gydag addasiadau mewnol, adleoli'r olchfa geir ac adeiladu adeilad amgáu'r olchfa geir.
02/2018/1108 – Tir yn (rhan o ardd) Y Fron, Stryd Mwrog, Rhuthun
Adeiladu annedd ar wahân ac addasiadau i'r mynediad i gerbydau sy'n bodoli eisoes.
02/2018/1127 – Llys Cerdd, Ffordd Llanfair, Rhuthun
Estyniad deulawr arfaethedig ar ochr yr annedd sy'n bodoli eisoes a gwaith cysylltiedig.

Penderfynodd yr aelodau eu bod yn dymuno cynnal ymweliad safle cyn gwneud sylwadau ar y cais isod:
02/2018/1090 – Tir yn (rhan o ardd) Pennant, Bryn Goodman, Rhuthun – Datblygu 0.17 hectar o dir trwy adeiladu dau annedd sengl (cais amlinellol).
PENDERFYNWYD*: y byddai'r Cynghorwyr Ian Lewney a Gavin Harris yn ymweld â'r safle ar 5 Rhagfyr a byddai eu sylwadau'n cael eu rhannu gydag aelodau'r Pwyllgor trwy'r Clerc i gytuno*

arnynt cyn eu cyflwyno i Adran Gynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Eu barn oedd bod y cais am ddau annedd sengl ar y safle yn cynrychioli gorddatblygu'r safle.

48. AMCANGYFRIFON ARIANNOL

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried yr amcangyfrifon ariannol yng nghyswllt gwariant y Pwyllgor yn 2019-20.

PENDERFYNWYD*: cynnal y gwariant ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol, ar gyfanswm o £2,300.00.*

49. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai dyddiad y cyfarfod nesaf fydd nos Lun, 7 Ionawr 2019 am 6:45pm.*